Ysgol Cybi

Polisi Prosesu Data Ysgolion / *Schools Data Processing Policy*

(Fersiwn 1, Hydref 2021 / *Version 1, October 2021*)

Ynglŷn â'r polisi hwn

Mae'r polisi hwn yn amlinellu'r hyn y mae angen i'r ysgol ei wneud i sicrhau ei bod yn deall y berthynas â phroseswyr data a bod y cytundebau angenrheidiol ar waith gydag unrhyw broseswyr data y mae'r ysgol yn ymgysylltu â nhw.

Cefnogir y polisi hwn gan adnoddau ar dudalen Diogelu Data sydd ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

About this policy

This policy outlines what the school needs to do to ensure that it understands the relationship with data processors and that the necessary agreements are in place with any data processors that the school engages with.

This policy is supported by resources on the Data Protection page on the Learning Service Microsite.

Fersiwn / *Version*	**Dyddiad / *Date***	**Crynodeb o newidiadau / *Summary of changes***	**Dyddiad a Dderbyniwyd gan Fwrdd o Lywodraethwyr / *Date Accepted by Board of Governors***
F1/*V1*	Hydref 2021 / *October 2021*	Polisi newydd / *New policy.*	

Dyddiad yr adolygiad nesaf / *Date of next review*	
Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu yn: / *This policy will be reviewed in:*	Hydref 2024 / *October 2024*

Yr unigolyn a fydd yn ymgymryd â'r adolygiad fydd: / *The review will be undertaken by:*	Swyddog Diogelu Data Ysgolion / *Schools Data Protection Officer*

Manylion Cyswllt:

Swyddog Diogelu Data Ysgolion

E-bost:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Rhif ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Contact Details:

Schools Data Protection Officer

E-mail:
dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Telephone: 01248 751833

Address:
Learning Service
Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
Anglesey
LL77 7TW

Rydym yn hapus i ddarparu'r polisi hwn ar ffurfiau eraill ar gais. Defnyddiwch y manylion cyswllt uchod. / *We are happy to provide this policy in alternative formats on request. Please use the above contact details.*

Dogfen: Templed polisi ar y berthynas rhwng yr ysgol ac unrhyw broseswyr data a manylion ynglŷn â chytundebau sy'n seiliedig ar ddeddfwriaeth diogelu data sef *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Document: *Policy template on the relationship between the school and any data processors and details regarding agreements based on data protection legislation namely the* UK General Data Protection Regulation (UK GDPR) *and the* Data Protection Act 2018.

Cyfrifoldeb: Cyfrifoldeb y Pennaeth yw sicrhau bod holl staff yr ysgol yn gweithredu ac yn cydymffurfio ac i sicrhau yr ymgynghorir â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynghylch defnyddio unrhyw systemau, rhaglenni ac apiau gan gyflenwyr allanol.

Responsibility: *It is the responsibility of the Headteacher to ensure implementation and compliance by all school staff and to ensure that the Schools Data Protection Officer is consulted regarding the use of any systems, programmes, apps by external suppliers.*

Cynnwys **Tudalen**

1. Datganiad Polisi

Mae'r polisi hwn yn nodi'r hyn y mae angen i'r ysgol fel rheolydd data ei wneud i sicrhau ei bod yn deall y berthynas â phroseswyr data a bod y cytundebau/contractau angenrheidiol ar waith gydag unrhyw broseswyr data y mae gan yr ysgol berthynas â hwy. Gall proseswyr data fod yn gyflenwyr allanol sy'n darparu systemau, rhaglenni, apiau a gwasanaethau i'r ysgol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo'n llwyr ei bod yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â deddfwriaeth diogelu data ac yn sicrhau ei bod yn bodloni ei gofynion cyfreithiol, statudol a rheoliadol o dan *UK GDPR* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Bydd yr ysgol yn ymgynghori ac yn gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data Ysgolion sy'n ymwneud ag unrhyw gytundebau a pherthnasoedd â phroseswyr data a bydd yn cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion cyn defnyddio unrhyw systemau, rhaglenni, apiau a gwasanaethau newydd a ddarperir gan sefydliad / cyflenwr allanol.

Bydd yr ysgol hefyd yn gofyn am gyngor y Swyddog Diogelu Data Ysgolion os bydd darparwr allanol yn mynd atyn nhw yn dweud bod yn rhaid iddynt gael cyfrif gyda'r darparwr er mwyn defnyddio unrhyw system, rhaglen neu ap sy'n bodoli eisoes gyda darparwr allanol arall sy'n bodoli eisoes.

2. Sgôp

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl weithwyr yr ysgol a'r rhai sy'n gweithio ar ran yr ysgol, gan gynnwys llywodraethwyr ysgol, gwirfoddolwyr a chontractwyr, sy'n ymgysylltu â phroseswyr data ac sy'n ymrwymo i ddefnyddio unrhyw systemau, rhaglenni neu apiau sy'n prosesu gwybodaeth bersonol am ddisgyblion, rhieni neu staff ysgol.

3. Deddfwriaeth, Canllawiau a Pholisïau

Y brif ddeddfwriaeth diogelu data y mae'r polisi hwn yn cydymffurfio â hi yw *Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y Deyrnas Unedig (UK GDPR)* a *Deddf Diogelu Data 2018.*

Mae'r polisi hwn hefyd yn seiliedig ar godau ymarfer perthnasol ac ar ganllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), gan gynnwys- *'Data controllers and data processors: what the difference is and what the governance implications are'.*

Dylid darllen y polisi hwn hefyd ar y cyd â'r *Polisi Diogelu Data Ysgolion*; *Polisi Asesiad Effaith Diogelu Data Ysgolion*; *Cyfnodau Cadw Ysgolion*; *Polisi Rheoli Cofnodion Ysgolion*; *Polisi Digwyddiadau Diogelwch Data Ysgolion* a *Pholisi Cais gan Wrthrych y Data Ysgolion*. Mae'r rhain i gyd ar gael ar tudalen Diogelu Data sydd ar Feicrowefan y Gwasanaeth Dysgu.

4. Diffiniadau

Data personol	Unrhyw wybodaeth ynglŷn ag unigolyn naturiol yr adnabyddir neu y gellir ei adnabod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol drwy'r wybodaeth honno. Gellir ei storio'n ddigidol, ar gyfrifiadur, neu mewn systemau ffeilio ar bapur.
Data categori arbennig	Gwybodaeth ynglŷn â hil, tarddiad ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth undeb llafur (neu ddiffyg aelodaeth), gwybodaeth enetig, gwybodaeth fiometreg (i adnabod unigolyn) unigolyn, a gwybodaeth ynglŷn ag iechyd, bywyd rhywiol neu ogwydd rhywiol unigolyn. Data categori arbennig yw data personol sydd angen amddiffyniad bellach oherwydd ei fod yn sensitif.
Prosesu gwybodaeth	Casglu, meddiannu, cofnodi, trefnu, strwythuro, storio, dargadw, diwygio, addasu, altro, adennill, ymgynghori, lledaenu, cyfyngu, datgelu, dinistrio, dileu gwybodaeth neu ei defnyddio neu wneud unrhyw beth â hi.
Digwyddiad diogelwch data	Digwyddiad diogelwch sy'n arwain at ddinistrio, colli, addasu, datgelu'n anawdurdodedig neu fynediad at ddata personol a drosglwyddir, a storir neu a brosesir mewn unrhyw ddull arall gan yr ysgol, yn ddamweiniol neu'n anghyfreithlon.
Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)	Yr ICO yw corff annibynnol y DU (awdurdod goruchwylio) a sefydlwyd i gynnal hawliau gwybodaeth. Rôl yr ICO yw cynnal hawliau gwybodaeth er budd y cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys ymdrin â chwynion ynghylch problemau, cael gafael ar wybodaeth bersonol gan sefydliad, neu os oes pryderon ynghylch sut mae sefydliad wedi ymdrin â gwybodaeth - os yw'r wybodaeth yn anghywir, wedi'i cholli neu ei datgelu i rywun arall. Adroddir am ddigwyddiadau diogelwch data sy'n risg uchel i unigolion i'r ICO.
Rheolydd data	Y bobl neu'r sefydliadau sy'n pennu'r pwrpasau dros brosesu data personol, ac ym mha fodd y caiff ei brosesu. Mae gan y rheolydd data gyfrifoldeb i sefydlu ymarferion a pholisïau yn unol â deddfwriaeth. Yr ysgol yw'r rheolydd data.
Defnyddwyr data	Yn cynnwys gweithwyr sydd â'u gwaith yn ymwneud â data personol. Mae gan ddefnyddwyr data ddyletswydd i ddiogelu'r wybodaeth y maent yn ymdrin â hi drwy ddilyn polisïau diogelu data a diogelwch bob amser. Mae staff a gyflogir gan ysgolion yn ddefnyddwyr data.
Proseswyr data	Yn cynnwys unrhyw berson sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd data (heblaw am y sawl sy'n gyflogedig gan y rheolydd data). Gall proseswyr data gynnwys cyflenwyr sy'n ymdrin â data personol ar ran yr ysgol.
Is-brosesydd	Unrhyw drydydd parti a benodir i brosesu data personol ar ran y prosesydd data.
Gwrthrych y data	Yr unigolyn y mae'r wybodaeth bersonol yn ymwneud ag ef.
Swyddog Diogelu Data	Mae DPO yn helpu i fonitro cydymffurfiaeth fewnol, hysbysu a chynghori ar rwymedigaethau diogelu data, rhoi cyngor ynghylch Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIAau) a gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer gwrthrychau data a'r awdurdod goruchwylio.

Gwybodaeth trydydd parti	Trydydd parti yw rhywun nad yw'n rheolwr data, yn brosesydd data nac yn wrthrych i'r data.
Cofnodion o Weithgareddau Prosesu (ROPA)	Disgrifia ROPA yr union ddefnydd o ddata a'r mesurau technegol a sefydliadol sydd gan y rheolydd data ar waith ar gyfer diogelu data. Mae hefyd yn dogfennu pwy sy'n cael ei effeithio drwy brosesu ac mae'n dogfennu derbynnydd prosesu a rhestr o broseswyr data.
Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)	Asesiad gan y rheolydd data o'r effaith a ragwelir drwy'r prosesu ar ddiogelu data personol, sy'n ofynnol o dan ddeddfwriaeth diogelu data ar gyfer unrhyw brosesu risg uchel.
Systemau Gwybodaeth	Cyfrifiaduron prosesu gwybodaeth neu systemau cyfathrebu data.
Risg	Effaith ansicrwydd ar amcanion. Risgiau i unigolion: y potensial am ddifrod neu drallod. Nodweddir risg yn aml gan gyfeirio at "ddigwyddiadau" a "chanlyniadau" posibl, neu gyfuniad o'r rhain.
Ffugenwi	Y broses lle prosesir gwybodaeth bersonol mewn ffordd na ellir ei defnyddio i adnabod unigolyn heb ddefnyddio gwybodaeth ychwanegol, a gadwir ar wahân ac yn amodol ar fesurau technegol a sefydliadol i sicrhau na ellir priodoli gwybodaeth bersonol i unigolyn a ellir ei adnabod.
Gwybodaeth Ddienw	Cael gwared â gwybodaeth a ellir ei defnyddio i adnabod rhywun oddi ar rywbeth (megis data cyfrifiadur) fel na ellir gwybod beth oedd y ffynhonnell wreiddiol na'i hadnabod.
Storio cwmwl	Mae storio cwmwl yn fodel cyfrifiadura cwmwl lle caiff data ei storio ar weinyddion o bell a gyrchir o'r rhyngrwyd, neu "gwmwl". Mae'n cael ei gynnal, ei weithredu a'i reoli gan ddarparwr gwasanaeth storio cwmwl ar weinyddion storio sy'n cael eu hadeiladu ar dechnegau rhithiol.
Ap	Mae'r gair "ap" yn dalfyriad ar gyfer "application" yn y Saesneg. Mae'n ddarn o feddalwedd sy'n gallu rhedeg drwy borwr gwe neu all-lein ar gyfrifiadur, ac ar ffôn clyfar, tabled neu ddyfeisiau electronig eraill.

5. Cyfrifoldebau

5.1. Corff Llywodraethu Ysgol

Mae'r corff llywodraethu ysgol yn gyfrifol am:

- monitro cydymffurfiad ac atebolrwydd cyffredinol yr ysgol ynglŷn â'r polisi yma;
- sicrhau bod yr ysgol yn gallu tystiolaethu cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth diogelu data.

5.2. Pennaeth (a/neu Berson sy'n Gyfrifol am Ddiogelu Data yn yr Ysgol)

Mae'r Pennaeth a/neu'r person sy'n gyfrifol am ddiogelu data yn yr ysgol yn gyfrifol am:

- sicrhau a hyrwyddo dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn a pholisïau statudol a rheoleiddiol eraill sy'n ymwneud â diogelu data;
- sicrhau bod gan yr ysgol sail gyfreithiol dros brosesu data personol a data categori arbennig;

- sicrhau bod staff yn cadarnhau gyda'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion fod cytundebau priodol ar waith cyn defnyddio/prynu systemau, rhaglenni neu apiau newydd gan ddarparwyr allanol;
- sicrhau bod diwydrwydd dyladwy wedi digwydd ar broseswyr data;
- adrodd unrhyw ddigwyddiad diogelwch data i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion mor fuan â phosib;
- sicrhau yr ymgynghorwyd â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion ynghylch yr angen i gwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA);
- dogfennu manylion unrhyw gytundebau/contractau gyda phroseswyr data yng Nghofnodion Gweithgareddau Prosesu'r Ysgol (ROPA);
- bod yn gwbl ymwybodol o'r holl systemau, rhaglenni, apiau a gwasanaethau a ddarperir gan broseswyr data sy'n cael eu defnyddio gan yr ysgol yn ei chyfanrwydd;
- sicrhau bod manylion am broseswyr data yn cael eu cynnwys yn Hysbysiad Preifatrwydd yr ysgol.

5.3. Holl staff yr Ysgol

Mae'r holl staff a gyflogir neu sy'n gwirfoddoli yn yr ysgol, gan gynnwys athrawon, cynorthwywyr dosbarth a staff cymorth busnes, yn gyfrifol am:

- sicrhau dealltwriaeth a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn;
- cadarnhau gyda'r Pennaeth/Swyddog Diogelu Data Ysgolion fod sail gyfreithiol dros brosesu data personol a data categori arbennig a bod cytundeb priodol ar waith cyn defnyddio/agor cyfrif/prynu systemau, rhaglenni, apiau neu wasanaethau newydd gan ddarparwyr allanol;
- darparu manylion unrhyw systemau, rhaglenni neu apiau a ddefnyddir i'r Pennaeth i'w dogfennu;
- adrodd unrhyw ddigwyddiad diogelwch data i'r Pennaeth mor fuan â phosib.

5.4. Swyddog Diogelu Data Ysgolion

Mae'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion (Cyngor Sir Ynys Môn) yn gyfrifol am:

- rhoi cyngor ac arweiniad i ysgolion ynghylch telerau cytundebau rhwng yr ysgol a phroseswyr data;
- rhoi cyngor ac arweiniad i ysgolion ynghylch sail gyfreithiol ar gyfer prosesu data personol a data categori arbennig;
- trafod unrhyw delerau cytundebau â phroseswyr data ar ran yr ysgolion pan fydd ysgolion yn gofyn am y gefnogaeth yma;
- cefnogi a darparu cyngor os bydd digwyddiad diogelwch data;
- cefnogi a chynghori ysgolion mewn perthynas â chwblhau Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA);
- cefnogi a chynghori ysgolion ynghylch cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar broseswyr data.

6. Cyfrifoldebau'r Rheolydd Data

Mae'r ysgol fel y rheolwr data'n gyfrifol am ddata personol sy'n cael ei brosesu gan yr ysgol. Mae'r ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth bersonol yn cael ei thrin yn

gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw; bod pobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a bod eu hawliau gwybodaeth yn cael eu cynnal.

Mae'r ysgol yn pennu'r dibenion ar gyfer sut caiff data personol ei brosesu, neu sut dylid ei brosesu. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol yn arfer rheolaeth gyffredinol dros 'pam' a 'sut' gweithgaredd prosesu data.

Dim ond yr ysgol fel rheolydd data a all wneud y penderfyniadau canlynol ynghylch prosesu data:

- casglu'r data personol yn y lle cyntaf a'r sail gyfreithiol dros wneud hynny;
- pa eitemau o ddata personol i'w casglu, h.y. cynnwys y data;
- y diben neu'r dibenion y mae'r data i'w ddefnyddio ar eu cyfer;
- pa unigolion i gasglu data amdanynt;
- a ddylid datgelu'r data, ac os felly, i bwy;
- a yw mynediad i wrthrych y data a hawliau unigolion eraill yn berthnasol i. e. cymhwyso eithriadau; a
- am ba hyd i gadw'r data neu a ddylid gwneud diwygiadau nad ydynt yn rhai arferol i'r data.

6.1. <u>Sail Gyfreithiol dros Brosesu</u>
Rhaid i'r ysgol fod yn fodlon bod ganddi **sail gyfreithiol** dros brosesu data personol. Rhaid prosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon yn unol â hawliau'r unigolyn. Ni fydd yr ysgol ond yn prosesu gwybodaeth bersonol pan fydd o leiaf un o amodau *Erthygl 6 o UK GDPR* wedi'u bodloni:

- 6(1)(a)- **cydsyniad yr unigolyn** - mae'r unigolyn wedi rhoi caniatâd clir i'r ysgol brosesu ei ddata personol at ddiben penodol;
- 6(1)(b)- **mae prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract** - mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer contract gyda'r unigolyn, neu am eu bod wedi gofyn am gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract;
- 6(1)(c)- **mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â dyletswydd gyfreithiol** - mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i'r ysgol gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol);
- 6(1)(d)- **mae prosesu yn angenrheidiol er budd hanfodol yr unigolyn neu berson naturiol arall**- mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu bywyd rhywun;
- 6(1)(e)- **mae prosesu yn angenrheidiol gan ei fod yn ymgymryd â thasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol -** mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i'r ysgol gyflawni tasg er budd y cyhoedd neu er budd swyddogol yr ysgol, ac mae gan y dasg neu'r swyddogaeth sail glir yn y gyfraith;
- 6(1)(f)- **mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion buddiannau cyfreithlon y rheolydd data neu'r trydydd parti**- mae'r prosesu yn angenrheidiol ar gyfer buddiannau cyfreithlon neu fuddiannau cyfreithlon trydydd parti oni bai bod rheswm da dros ddiogelu data personol yr unigolyn sy'n diystyru'r buddiannau cyfreithlon hynny *(nid yw hyn yn berthnasol i awdurdodau cyhoeddus yn prosesu data i gyflawni tasgau swyddogol).*

Mae'r sail gyfreithlon ar gyfer prosesu **data categori arbennig** yn mynnu, yn ogystal â bodloni o leiaf un o amodau *Erthygl 6 o UK GDPR*, fod yn rhaid bodloni amod yn *Erthygl 9 o UK GDPR* hefyd. Ni fydd yr ysgol ond yn prosesu gwybodaeth bersonol sensitif os yw amod yn *Erthygl 9* wedi'i fodloni:

- 9(2)(a)- **prosesu gyda chydsyniad penodol ac eglur yr unigolyn -** oni waherddir dibyniaeth ar gydsyniad gan gyfraith yr UE neu'r Aelod-wladwriaeth;
- 9(2)(b)- **mae prosesu yn angenrheidiol o dan gyfraith cyflogaeth -** neu gyfraith nawdd cymdeithasol, neu gytundeb cyfunol;
- 9(2)(c)- **mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn diogelu buddiannau hanfodol yr unigolyn –** gwrthrych y data nad yw'n gallu rhoi cydsyniad yn gorfforol neu'n gyfreithiol;
- 9(2)(d)- **prosesu ar gyfer defnyddio grŵp categori arbennig (sefydliad di-elw sydd â nod gwleidyddol neu grefyddol neu undeb llafur);**
- 9(2)(e)- **mae prosesu yn ymwneud â gwybodaeth a gyhoeddir gan yr unigolyn;**
- 9(2)(f)- **mae prosesu yn angenrheidiol fel y gall y sefydliad amddiffyn hawliadau cyfreithiol -** neu pan fo'r llysoedd yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd farnwrol;
- 9(2)(g)- **mae prosesu yn angenrheidiol am resymau buddiannau cyhoeddus sylweddol yn seiliedig ar y gyfraith -** sy'n gymesur â'r nod a ddilynir ac sy'n cynnwys mesurau diogelu priodol - mae hyn yn golygu y gall Aelod-wladwriaethau ymestyn yr amgylchiadau lle gellir prosesu data sensitif er budd y cyhoedd;
- 9(2)(h)- **mae prosesu yn angenrheidiol er mwyn ymateb i anghenion lechyd Galwedigaethol a Gofal Cymdeithasol –** yn angenrheidiol at ddibenion meddygaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu capasiti gwaith y cyflogai, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol ar sail cyfraith Aelod-wladwriaeth yr Undeb neu gontract gyda gweithiwr iechyd proffesiynol;
- 9(2)(i)- **mae prosesu yn angenrheidiol am resymau lechyd y Cyhoedd -** megis diogelu rhag bygythiadau trawsffiniol difrifol i iechyd neu sicrhau safonau uchel mewn gofal iechyd a chynhyrchion meddyginiaethol neu ddyfeisiau meddygol;
- 9(2)(j)- **mae prosesu yn angenrheidiol at ddibenion archifo er budd y cyhoedd; neu at ddibenion ymchwil wyddonol neu hanesyddol; neu at ddibenion ystadegol.**

Bydd yr ysgol yn cofnodi ei phenderfyniad ynghylch pa sail gyfreithlon sy'n berthnasol yng Nghofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA) yr ysgol, er mwyn helpu i ddangos cydymffurfiaeth â'r egwyddorion diogelu data.

7. Proseswyr Data

Prosesydd data yw unrhyw berson sy'n prosesu data personol ar ran rheolydd data (ac eithrio cyflogai'r rheolydd data).

Gall yr ysgol ddefnyddio sefydliadau/darparwyr allanol i brosesu gwybodaeth bersonol ar ei rhan. Cyfeirir at y sefydliadau hyn fel proseswyr data.

Mae angen i'r ysgol fel rheolydd data ddeall ei rhwymedigaethau'n llawn a hyrwyddo arfer dda o ran ymgysylltu â phroseswyr data.

Ni ddylai'r ysgol ond dibynnu ar broseswyr data sy'n darparu digon o warantau mewn perthynas â mesurau rheoli priodol a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth diogelu data. Dylai'r ysgol ddewis prosesydd data a all ddarparu digon o warantau mewn perthynas â mesurau diogelwch technegol a sefydliadol sy'n llywodraethu'r prosesu i fynd rhagddo.

Gall proseswyr data fod yn:

- ddarparwyr sy'n darparu gwasanaeth i'r ysgol fel cwmnïau sy'n darparu systemau, rhaglenni neu apiau penodol (e.e. MyConcern, Class Dojo ac ati);
- darparwyr sy'n darparu gwasanaeth TG i'r ysgol (e.e. darparwr gwasanaeth cwmwl);
- darparwyr sy'n darparu gwasanaethau cyflogres.

7.1. Gweithgareddau a Chyfrifoldebau'r Prosesydd Data
Mae gweithgareddau prosesydd yn gyfyngedig i'r agweddau mwy 'technegol' ar weithrediad, megis storio, adalw neu ddileu data. Er y gall yr ysgol ofyn i'r prosesydd data gyflawni rhai agweddau ar y prosesu, yr ysgol fel rheolwr data sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol o hyd.

O fewn telerau'r cytundeb gyda'r ysgol a'i chontract, gall prosesydd data benderfynu:

- pa systemau TG neu ddulliau eraill i'w defnyddio i gasglu data personol;
- sut i storio'r data personol;
- manylion y diogelwch sy'n gysylltiedig â'r data personol;
- y modd a ddefnyddir i drosglwyddo'r data personol o un sefydliad i'r llall;
- y modd a ddefnyddir i adalw data personol am unigolion penodol;
- y dull o sicrhau y glynir wrth gyfnodau cadw; ac
- y modd a ddefnyddir i ddileu neu waredu'r data.

Mae gan brosesydd data y rhyddid i ddefnyddio ei wybodaeth dechnegol i benderfynu sut i gyflawni rhai gweithgareddau ar ran yr ysgol. Fodd bynnag, ni all gymryd unrhyw un o'r penderfyniadau trosfwaol, er enghraifft beth fydd y data personol yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer na beth yw cynnwys y data.

7.2. Ymgysylltu â Phroseswyr Data
Dylai staff yr ysgol gymryd gofal wrth gofrestru i ddefnyddio unrhyw systemau, rhaglenni neu apiau addysgol a ddarperir gan sefydliad/darparwr allanol a sicrhau ei bod yn glir sut mae gwybodaeth bersonol yn cael ei defnyddio a'i phrosesu gan mai'r ysgol fel y rheolwr data sy'n gyfrifol yn y pen draw am y data personol.

Dylid rhoi gofal arbennig pan fydd systemau, rhaglenni neu apiau eisiau mynediad neu eisiau tynnu data o systemau ysgolion eraill megis SIMS. Rhaid ystyried y risgiau cyn comisiynu'r darparwr.

Mae'r ysgol yn gyfrifol am asesu bod y prosesydd data yn gymwys i brosesu'r data personol yn unol â gofynion *UK GDPR.*

Dylai'r ysgol fel rheolydd data gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy i warantu y bydd y prosesydd data yn gweithredu mesurau technegol a sefydliadol priodol i fodloni gofynion *UK GDPR.* Dylai'r diwydrwydd dyladwy fod yn gymesur â risg y prosesu cyn cytuno ar gontract gyda phrosesydd data.

Dylai'r ysgol ddewis cyflenwyr sy'n dylunio eu cynnyrch neu eu gwasanaethau gyda diogelu data mewn golwg - 'diogelu data yn ôl dyluniad'.

Bydd yr ysgol yn cynnwys manylion unrhyw gytundebau gyda phroseswyr data yng Nghofnodion Gweithgareddau Prosesu (ROPA) yr ysgol.

Gall yr ysgol hefyd nodi yn Hysbysiad Preifatrwydd yr ysgol fanylion proseswyr data (fel trydydd partïon) fel gwybodaeth am bwy y bydd eu data personol yn cael ei rannu gyda neu gyda phwy y gellir ei rannu.

8. Cytundebau / Contractau Prosesu Data

Mae Cytundeb neu Gontract Prosesu Data yn gontract cyfreithiol rwymol rhwng y rheolydd data a'r prosesydd data sy'n nodi hawliau a rhwymedigaethau pob parti sy'n ymwneud â diogelu data personol.

Rhaid i'r ysgol fod â chontract/cytundeb ysgrifenedig ar waith fel ei bod yn ymrwymo i gontract rhwymol neu weithred gyfreithiol arall gyda phrosesydd data. Mae gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion dempled y gellir ei ddefnyddio fel Cytundeb Prosesu Data (DPA)/contract gyda phroseswyr data.

Mae cael contract ysgrifenedig yn helpu pawb i ddeall pwrpas y rhannu; beth fydd yn digwydd ar bob cam a pha gyfrifoldebau sydd ganddynt. Mae cael contract ysgrifenedig yn helpu'r ysgol a'r prosesydd data i ddangos cydymffurfiaeth a deall eu rhwymedigaethau, eu cyfrifoldebau a'u hatebolrwydd.

Mae'n bwysig bod yr ysgol ac unrhyw broseswyr data sy'n ymwneud â gweithgaredd prosesu data yn sefydlu eu rolau a'u cyfrifoldebau yn gynnar, yn enwedig cyn i'r prosesu ddechrau. Bydd hyn yn helpu i sicrhau nad oes bylchau mewn cyfrifoldebau.

Rhaid i gontractau a chytundebau â phroseswyr data gynnwys nifer o ddarpariaethau gorfodol, a rhaid i'r prosesydd data gydymffurfio â'u rhwymedigaethau fel prosesydd data o dan y contract. Dylai contractau/cytundebau sicrhau:

- mai dim ond ar gyfarwyddiadau ysgrifenedig yr ysgol y caiff y sefydliad weithredu;
- bod y rhai sy'n prosesu'r data yn ddarostyngedig i ddyletswydd hyder;
- y cymerir camau priodol i sicrhau diogelwch prosesu;
- mai dim ond gyda chydsyniad blaenorol yr ysgol ac o dan gontract ysgrifenedig y mae is-gontractwyr yn ymwneud â hwy;

- bydd y sefydliad yn cynorthwyo'r ysgol i ddarparu mynediad i wrthrych y data ac yn caniatáu i unigolion arfer eu hawliau mewn perthynas â diogelu data;
- bydd y sefydliad yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni ei rhwymedigaethau mewn perthynas â diogelwch prosesu, hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch data ac Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA);
- bydd y sefydliad yn dileu neu'n dychwelyd yr holl wybodaeth bersonol i'r ysgol yn ôl y gofyn ar ddiwedd y contract; a
- bydd y sefydliad yn cytuno i archwiliadau ac arolygiadau; rhoi pa wybodaeth bynnag sydd ei hangen ar yr ysgol i sicrhau eu bod ill dau'n bodloni eu rhwymedigaethau diogelu data, ac yn dweud wrth yr ysgol ar unwaith os gofynnir iddo wneud rhywbeth sy'n torri cyfraith diogelu data.

Cyn yr ymrwymir ag unrhyw gytundeb newydd sy'n ymwneud â phrosesu gwybodaeth bersonol gan sefydliad allanol, neu os caiff y cytundeb presennol ei newid, dylai'r ysgol ofyn i'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion i gymeradwyo ei delerau.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn sicrhau bod cytundebau wedi'u diffinio'n glir ar waith rhwng yr ysgol a'r sefydliad i sicrhau bod data'n cael ei ddiogelu'n briodol ac yn rhoi eglurder ar rolau a chyfrifoldebau. Gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion drafod telerau gyda'r prosesydd data ar ran yr ysgol.

8.1. Gweithredu ar Gyfarwyddiadau Ysgrifenedig yr Ysgol

Dim ond ar gyfarwyddiadau'r ysgol fel rheolydd data y gall proseswyr data weithredu.

Dylai'r ysgol fel y rheolwr data roi cyfarwyddiadau cytundebol i'r prosesydd data gan ddweud beth y gall neu na all y prosesydd data ei wneud gyda'r data, gyda'r contract yn ei gwneud yn ofynnol i'r prosesydd data weithredu ar gyfarwyddiadau'r ysgol yn unig.

Mae llawer o ddarparwyr systemau, rhaglenni ac apiau yn gofyn i'r ysgol lofnodi cytundeb gyda nhw yn hytrach na'r ysgol yn cyhoeddi cytundeb gyda'r darparwr. Yn yr achos hwn, rhaid i'r ysgol fel rheolwr data fod yn fodlon bod telerau'r contract yn bodloni disgwyliadau'r ysgol ac na ddylent gytuno i'r telerau os nad ydynt yn bodloni manylion yr ysgol yn llawn. Yr ysgol fel y rheolwr data sy'n gyfrifol yn y pen draw am y data personol a rhaid iddi fod yn fodlon bod y prosesydd data yn cydymffurfio'n llawn â safonau diogelu data.

Os yw'r prosesydd data yn gweithredu y tu allan i gyfarwyddiadau neu broses yr ysgol at eu dibenion eu hunain, byddant yn camu y tu allan i'w rôl fel prosesydd data ac yn dod yn rheolwr data ar gyfer y prosesu hwnnw.

Gall y Swyddog Diogelu Data Ysgolion gefnogi'r ysgol i adolygu cytundebau a ddarperir gan broseswyr data a gall negydu telerau gyda'r prosesydd data ar ran yr ysgol.

8.2. Dyletswydd Hyder

Mae angen i'r ysgol fod yn fodlon bod y sawl sy'n prosesu data yn ddarostyngedig i ddyletswydd hyder.

Dylai cytundebau nodi bod yn rhaid i unrhyw staff sy'n gweithio i'r prosesydd data gadw at gyfrinachedd a dylai'r prosesydd data ddatgan a yw staff wedi derbyn hyfforddiant deddfwriaeth diogelu data.

8.3. Mesurau Diogelwch Priodol

Mae gan yr ysgol ddyletswydd i sicrhau bod trefniadau diogelwch y prosesydd data o leiaf yn cyfateb i'r diogelwch y byddai'n ofynnol i'r ysgol ei gael pe bai'n prosesu'r data ei hun.

Mae angen i'r ysgol fod yn fodlon bod y prosesydd yn mabwysiadu mesurau diogelwch technegol a sefydliadol sy'n cynnwys amgryptio, ffugenwi, gwydnwch systemau prosesu a ffeilio data personol wrth gefn er mwyn gallu adfer y system.

Disgwylir i'r prosesydd data fod â mesurau diogelwch ar waith sy'n cynnwys diogelu data personol rhag dinistr neu golled ddamweiniol neu anghyfreithlon, addasiad, datgeliad heb awdurdod neu fynediad.

Felly, mae angen i'r ysgol sicrhau bod y cytundeb gyda'r prosesydd data yn cynnwys manylion am y mesurau a gymerir gan y prosesydd data i sicrhau diogelwch y prosesu a bod y mesurau hyn yn hyfedr.

8.4. Dim ond gyda Chysyniad Blaenorol yr Ysgol yr Ymgysylltir ag Is-gontractwyr

Dim ond gyda chydsyniad blaenorol yr ysgol ac o dan gontract ysgrifenedig y dylai proseswyr data ymgysylltu ag is-gontractwyr. Gall proseswyr data ddefnyddio is-gontractwr i ddarparu eu gwasanaethau/elfennau o'u gwasanaethau, ond dylai'r prosesydd data ofyn am gydsyniad yr ysgol fel y rheolwr data cyn is-gontractio unrhyw un o'i gwasanaethau. Enghraifft o hyn yw is-gontractio i ddarparwr gwasanaeth cwmwl.

Mae angen i'r ysgol fod yn ymwybodol os dyma'r achos a dylid rhoi cyfle iddi wrthwynebu'r defnydd o is-broseswyr.

Dylai'r contract ysgrifenedig rhwng yr ysgol a'r prosesydd data nodi a yw'r prosesydd data yn defnyddio unrhyw is-gontractwyr a dylai roi manylion pwy yw'r is-gontractwyr fel bod yr ysgol yn glir beth sy'n digwydd i'r data personol a phwy sy'n prosesu'r data personol.

Os yw'r prosesydd data yn defnyddio is-brosesydd i helpu i brosesu data personol ar gyfer yr ysgol, mae angen iddo gael contract ysgrifenedig ar waith gyda'r is-brosesydd. Rhaid i'r prosesydd data roi contract ar waith gyda'r is-brosesydd gyda thelerau sy'n cynnig lefel gyfartal o ddiogelwch ar gyfer data personol â'r rhai yn y contract rhwng y prosesydd data a'r ysgol fel y rheolydd data.

8.5. Cynorthwyo'r Ysgol i Ddarparu Mynediad i Wrthrych y Data a Chaniatáu i Unigolion Arfer eu Hawliau

Mae angen i gytundebau nodi y bydd y prosesydd data yn cynorthwyo'r ysgol i ddarparu mynediad i wrthrych y data ac yn caniatáu i unigolion arfer eu hawliau mewn perthynas â diogelu data.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu'r hawliau canlynol i unigolion:

1. Yr hawl i gael gwybod;
2. Yr hawl i gael mynediad;
3. Yr hawl i gywiro;
4. Yr hawl i ddileu;
5. Yr hawl i gyfyngu ar brosesu;
6. Yr hawl i gludadwyedd data;
7. Yr hawl i wrthwynebu;
8. Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae angen i'r ysgol fod yn fodlon y bydd y prosesydd data yn cynorthwyo'r ysgol i ganiatáu i unigolion arfer eu hawliau diogelu data.

8.6. Dileu neu Ddychwelyd Data Personol i'r Ysgol
Mae angen cymalau ar gontractau sy'n nodi y bydd prosesydd data yn dileu neu'n dychwelyd yr holl wybodaeth bersonol i'r ysgol ar ddiwedd y contract.

Os bydd yr ysgol yn terfynu contract gyda phrosesydd data, mae angen iddo sicrhau bod yr holl ddata personol a gedwir o fewn y system, y rhaglen neu'r ap naill ai'n cael ei ddileu gan y prosesydd data neu'n cael ei ddychwelyd i'r ysgol.

Os caiff yr wybodaeth ei dileu gan y prosesydd data, mae angen cadarnhad ysgrifenedig sy'n nodi bod yr holl ddata personol wedi'i ddileu a'r dyddiad y gwnaed hyn.

8.7. Cynorthwyo'r Ysgol gyda Diogelwch Prosesu; Hysbysu am Ddigwyddiadau Diogelwch Data ac Asesiad Effaith Diogelu Data (DPIA)
Rhaid i gytundebau nodi y bydd y prosesydd data yn cynorthwyo'r ysgol i gyflawni ei rhwymedigaethau mewn perthynas â diogelwch prosesu, hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch data ac Asesiadau Effaith Diogelu Data (DPIA).

Mae angen i'r cytundeb ddatgan bod gan y prosesydd data gyfrifoldeb i hysbysu'r ysgol fel y rheolydd data heb oedi gormodol (cyn gynted â phosibl) os daw'n ymwybodol bod digwyddiad diogelwch data yn cael ei ganfod. Nid oes eithriad i hyn a rhaid i'r prosesydd data roi gwybod am yr holl ddigwyddiadau diogelwch data i'r ysgol, waeth beth fo'u maint.

Mae DPIA yn ddull strwythuredig o nodi risgiau diogelu data sy'n gysylltiedig â phrosesu data personol; i helpu'r ysgol i nodi a lleihau'r risgiau ac ar gyfer gweithredu rheolaethau priodol i'w rheoli. Mae DPIA yn ofyniad cyfreithiol ar gyfer prosesu sy'n debygol o fod yn risg uchel. Dylai prosesydd data roi ei fewnbwn i DPIA lle bo'n briodol. Efallai y bydd angen i'r ysgol ofyn i'r prosesydd data am wybodaeth a chymorth. Dylai cytundebau nodi y gallai fod yn ofynnol i broseswyr data helpu i gwblhau DPIAau.

Bydd y Swyddog Diogelu Data Ysgolion yn cynorthwyo â digwyddiadau diogelwch data a chreu DPIAau.

8.8. Cytuno i Archwiliadau ac Arolygiadau
Mae angen i'r ysgol allu dangos ei bod yn cydymffurfio â chyfreithiau diogelu data a bydd angen i'r prosesydd data ddangos eu bod hefyd yn cydymffurfio.

Mae'r ICO yn disgwyl i reolwyr data gymryd camau rhesymol i sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal. Un enghraifft o hyn yw cynnal archwiliad rheolaidd o drefniadau diogelwch y prosesydd data. Bydd angen i'r ysgol fel rheolydd data hefyd gadarnhau bod y prosesydd data'n cydymffurfio â'r holl delerau ac amodau cytundebol. Dylai gwiriadau cydymffurfio fod yn gymesur â'r risgiau prosesu.

Rhaid i gytundebau nodi y bydd y prosesydd data yn cytuno i archwiliadau ac arolygiadau.

Mae angen i gytundebau nodi y bydd y prosesydd data yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar yr ysgol i sicrhau eu bod ill dau'n bodloni eu rhwymedigaethau diogelu data. Mae angen i gytundebau nodi y bydd y prosesydd data yn dweud wrth yr ysgol ar unwaith os gofynnir iddo wneud rhywbeth sy'n torri cyfraith diogelu data.

9. Materion Gorfodi

Mae'r rheolydd data a'r prosesydd data yn gyfrifol am gydymffurfio'n rhagweithiol â'r ddeddfwriaeth diogelu data. Mae'r gwahaniaeth rhwng rheolydd data a phrosesydd data yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun gorfodi o dan ddeddfwriaeth diogelu data. Er enghraifft, os oes digwyddiad diogelwch data mae'n hanfodol i'r ysgol; y prosesydd data dan sylw a'r ICO allu penderfynu ble mae'r cyfrifoldeb.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn nodi'n glir mai'r rheolydd data sy'n gyfreithiol gyfrifol am brosesu data personol y mae'n ymgymryd ag ef ei hun ac sy'n cael ei wneud ar ei ran gan brosesydd data. Mae'n bwysig bod yr ysgol yn rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i ddiogelu ei gweithrediad prosesu data rhag unrhyw natur fregus a allai godi o ddefnyddio prosesydd data.

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi'r hawl i unrhyw berson sydd wedi dioddef difrod materol neu ansylweddol o ganlyniad i dorri *UK GDPR* gael iawndal gan y rheolwr data neu'r prosesydd data am y difrod a ddioddefwyd.

O ran atebolrwydd, dim ond am y prosesu y maent yn ei wneud y bydd proseswyr data yn atebol, neu lle maent wedi gweithredu'n groes i gyfarwyddyd yr ysgol fel rheolydd data. Gall proseswyr data hefyd fod yn atebol os ydynt wedi methu â chydymffurfio â darpariaethau *UK GDPR* sy'n ymwneud yn benodol â phroseswyr data.

Bydd yr ICO yn ystyried graddau cyfrifoldeb y rheolydd data neu'r prosesydd data wrth benderfynu a fydd unrhyw ddirwy yn cael ei gosod a maint y ddirwy. Rhoddir ystyriaeth ddyledus i unrhyw weithdrefnau neu ddulliau arfer gorau a bydd yr ICO yn asesu i ba raddau y gwnaeth y rheolwr data yr hyn y gallai/y dylai i gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data.

Mae'n bwysig bod contract/cytundeb ar waith rhwng yr ysgol a phrosesydd data er mwyn nodi ble mae'r atebolrwydd pan fu torri hawliau diogelu data unigolyn.

10. Torri'r Polisi

Gallai methiant i gydymffurfio â'r polisi hwn gan aelodau o staff yr ysgol arwain at ganlyniadau difrifol.

Gall hyn arwain at roi'r unigolion y mae eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu a'r ysgol mewn perygl.

Mae perygl o gosbau sifil a throseddol sylweddol i'r unigolyn a'r awdurdodau ysgol gan drydydd partïon.

Felly, ystyrir bod diffyg cydymffurfio gan aelod o staff yn fater disgyblu a allai, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, arwain at ddiswyddo am gamymddwyn difrifol.

Os bydd gweithiwr nad yw'n gyflogai yn mynd yn groes i'r polisi hwn, efallai y bydd eu contract yn cael ei derfynu ar unwaith.

11. Adolygiad o Drefniadau Polisi a Goruchwylio

Caiff y polisi hwn ei adolygu gan y Swyddog Diogelu Data Ysgolion bob tair blynedd, oni bai bod newidiadau i ddeddfwriaeth, codau ymarfer, canllawiau neu gyngor comisiynydd, neu wendidau newydd yn ei gwneud yn ofynnol i'r polisi gael ei ddiweddaru'n gynt.

Caiff y polisi ei gymeradwyo gan Uwch Dîm Rheoli'r Gwasanaeth Dysgu a chaiff ei fabwysiadu gan gorff llywodraethu'r ysgol. Bydd Tîm Arweinyddiaeth a chorff llywodraethu'r ysgol yn monitro cydymffurfiaeth â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig.

Os oes unrhyw ymholiadau neu bryderon am unrhyw beth a gynhwysir yn y polisi hwn, dylid cysylltu â'r Swyddog Diogelu Data Ysgolion heb betruso:

E-bost: dpoysgolionmon@ynysmon.gov.uk

Ffôn: 01248 751833

Cyfeiriad:
Gwasanaeth Dysgu
Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Gellir cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â rheolwyr data a phroseswyr data ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: https://ico.org.uk/

Content **Page**

1. Policy Statement

This policy sets out what the school as a data controller needs to do to ensure that it understands the relationship with data processors and that the necessary agreements/contracts are in place with any data processors that the school has a relationship with. Data processors can be external suppliers that provide the school with systems, programs, apps and services.

The school is fully committed that it ensures full compliance with data protection legislation and ensures that it is meeting its legal, statutory and regulatory requirements under the *UK GDPR* and the *Data Protection Act 2018.*

